

Medi 2017

Ymgyrch Gymreig i wella'r Cytundeb Llwyth Gwaith cenedlaethol.

Cyd-destun:

Mae'r gyllideb ar gyfer AB wedi gostwng yn sylweddol dros y tair blynedd diwethaf ac ymddengys y bydd yn gostwng ymhellach fwy na thebyg wrth i llywodraeth San Steffan dorri'r arian a roddir i Gymru yn y dyfodol. Dechreuodd â thoriad sylweddol o **£17,978,299** yn 2015/16, gyda chynnydd bach iawn mewn dyraniadau arian parod ar gyfer 16/17 a 17/18, nad oeddent yn cyd-fynd â'r cynnydd mewn costau pensiynau ac Yswiriant Gwladol. Arweiniodd hyn at ostyngiad o tua 12% yn nifer y staff addysgu (**Swyddfa Archwilio Cymru Chwefror 2017**)

Hyd yn hyn rydym wedi llwyddo i osgoi gorfod diswyddo staff academaidd, gan fod y cyflogwr yn gwybod y bydd UCU yn gweithredu yn erbyn diswyddiadau gorfodol drwy streicio. Er hyn, mae dylanwad y toriadau hyn yn cael effaith sylweddol ar llwyth gwaith staff.

Mae UCU a'r llywodraeth wedi cynnal arolygon ar y mater hwn, ac mae'r cyfraddau ymateb a'r canfyddiadau yn gymharol debyg.

Yn ôl arolwg UCU a gynhaliwyd yn 2016 gyda chyfradd ymateb o 15.2% o aelodau:

"*mae pawb a ymatebodd yn gweithio cyfartaledd cymedr o 50.1 awr yr wythnos CALL. Y cyfartaledd canolrif a'r*

Sept 2017

Welsh Campaign to improve national Workload Agreement.

Context:

The budget for FE has decreased quite significantly over the last three years and it appears that it will probably continue to decrease as the Westminster government cut the amount of money given to Wales in future years. It started with a significant cut in 2015/16 of **£17,978,299**, with very small increase in cash allocations for 16/17 and 17/18, which did not meet the costs of the increases in pensions and NI costs. This resulted in a drop in teaching staff numbers of around 12% (**Wales Audit Office Feb 2017**)

Thus far we have managed to avoid compulsory redundancies of academic staff, because the employer knows that UCU will fight compulsory redundancies with strike action. However the impact of these cuts is having a significant impact on workload of staff.

Both UCU and the government have conducted surveys on this issue, the response rates and the findings are broadly similar.

The UCU survey conducted in 2016 with a response rate from members of 15.2%. It found that:

"All respondents to the survey work a mean average of 50.1 hours per week FTE. The median and mode averages are

cyfartaledd modd yw 50 awr CALL, gan ddangos dosbarthiad teg ar draws yr ystod gyfan o werthoedd. Mae hyn ymhell dros y 37 awr yr wythnos a nodir yn y cytundeb cenedlaethol. Nododd 95% o ymatebwyr fod cyflymder neu ddwysedd eu gwaith wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf, gydag 80.1% yn nodi ei fod wedi cynyddu yn sylweddol, ac 14.8% yn nodi ei fod wedi cynyddu ychydig. "

Comisiynodd y Llywodraeth arolwg o'r gweithlu addysg yn 16/17. Cafodd ei gynnal gan Gyngor y Gweithlu Addysg (**EWC**). Y gyfradd ymateb oedd 17.9% a darganfuwyd nad oedd 59% o ddarlithwyr AB yn gallu rheoli eu llwyth gwaith a bod darlithwyr yn gweithio 47.7 awr yr wythnos ar gyfartaledd, sef 10.7 awr yn fwy na'r hyn a ddisgwylir ganddynt yn eu cytundebau.

Mae aelodau sy'n gweithio yn y sector wedi bod yn hapus i weithio y tu hwnt i'w cytundebau er lles eu myfyrwyr bob amser. Er hyn, mae'r amser yn dod lle caiff iechyd yr aelodau ei effeithio gan y pwysau sy'n cael ei osod ar staff oherwydd diffyg cyllid. Ym mis Ebrill 2017, gwnaeth hyd yn oed gorff y cyflogwr yng Nghymru, ColegauCymru gydnabod:-

"Mae adroddiad annibynnol diweddar Swyddfa Archwilio Cymru yn dangos bod toriad o tua 12 y cant wedi bod yn y staff addysgu ac mae hyn yn amlwg wedi cael effaith ar faich gwaith. Rhaid i Lywodraeth Cymru ymateb ar frys ac yn briodol drwy sicrhau cyllid teg i AB. Mae'r staff yn gweithio'n hynod o galed ac yn ymroddedig tu hwnt, a rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos yr un ymrwymiad wrth benderfynu ar ei setliadau ariannol yn y

both 50 hours FTE, demonstrating an even distribution cross the total range of values. This is well in excess of the 37 hours per week specified in the national contract. 95% of respondents said that the pace or intensity with which they work had increased over the last three years, with 80.1% saying that it has increased significantly, and 14.8% indicating it has increased slightly. "

The Government commissioned a survey of the education workforce in 16/17. It was conducted by the Education Workforce council (**EWC**). The response rate was 17.9% and it found that 59% of FE lecturers were not able to manage workload and lecturers working an average of 47.7 hours per week, 10.7 more than their contract requires.

Members working in the sector have always been willing to work beyond their contract for the sake of their students. However it is getting to the stage that members' health is being affected by the pressures being placed on staff by the funding shortfall. Even the employers' body in Wales, ColegauCymru acknowledged in April 2017 that:-

"The recent independent Wales Audit Office report highlights that there has been around a 12 per cent cut in teaching staff and this has clearly had an impact on workload. The Welsh Government must respond urgently and appropriately by ensuring fair funding for FE. Staff are overwhelmingly hard working and committed to their jobs and Welsh Government must match this level of commitment in their future funding settlements."

dyfodol."

Beth allwch chi ei wneud i wella eich llwyth gwaith?

1. Mae'r ymgyrch ar gyfer **Cyllid Tecach i Gymru** yn cael ei lansio ddydd Sadwrn 9 Medi yng Nghaerdydd y tu allan i Neuadd y Ddinas. Dewch i'r lansiad a helpwch i gefnogi'r ymgyrch.

2. Rhowch wybod i'ch swyddog cangen p'un a fyddwch yn cefnogi ymgyrch, gan gynnwys gweithredu diwydiannol, er mwyn mynd i'r afael â phroblemau llwyth gwaith yn eich coleg. Cynhelir cyfarfod FESC ddydd Sadwrn 21 Hydref er mwyn penderfynu p'un a ddylid cynnal pleidlais ddangosol ar gyfer streicio. Yr unig ffordd y gallwn gael cytundeb llwyth gwaith sy'n amlygu'r amser gwirioneddol y mae aelodau yn ymrwymo i'w gwaith yw drwy berswadio'r llywodraeth i ariannu AB yn briodol.

3. Siaradwch â'ch cydweithwyr nad ydynt yn aelodau o UCU a'u hannog i ymuno â'r Undeb ac ychwanegu eu llais at yr ymgyrch. Gallent ymuno ar-lein yn <https://www.ucu.org.uk/join>

What can you do to help improve your workload?

1. The campaign for **Fairer Funding for Wales** is being launched on Saturday 9th September in Cardiff outside City Hall. Attend the launch and help support the campaign.

2. Let your branch officer know whether you will support a campaign, including industrial action, to address the issues of workload in your college. The FESC meeting on Sat 21st October is to take a decision as to whether to run and indicative ballot for strike action. Only by persuading the government to properly fund FE will we able to get a workload agreement that reflects the actual amount of time members put into their jobs.

3. Talk to your colleagues who are not members of UCU and encourage them to join UCU and add their voice to the campaign, they can join online at <https://www.ucu.org.uk/join>